Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Swyddi Llywodraeth Cymru: canllawiau recriwtio ymgeiswyr allanol

Canllawiau i'ch helpu i wneud cais am swydd gyda Llywodraeth Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 27 Mehefin 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 12 Gorffennaf 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

⚠ Unpublished

# Cynnwys


## Swyddi Llywodraeth Cymru: cyflwyniad

### Croeso

### Egwyddorion recriwtio’r Gwasanaeth Sifil

## Swyddi Llywodraeth Cymru: cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg

### Amrywiaeth a chydraddoldeb

### Recriwtio dienw

### Hyderus o ran Anabledd

### Gweithle Gwych i Gyn-Aelodau’r Lluoedd Arfog

### Cynllun Cyfweliad Adleoli

### Y Gymraeg

## Swyddi Llywodraeth Cymru: sut i wneud cais

### Cynllunio’ch cais



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Unpublished

## Sut i wneud cais

## Swyddi Llywodraeth Cymru: y broses asesu

### Ffurflen gais

### Sifftio

### Profion neu ymarferion technegol

### Cyfweliad

## Swyddi Llywodraeth Cymru: telerau penodiad

### Oriau gwaith

### Absenoldeb

### Perfformiad a hyfforddiant

### Lleoliad

### Gweithio'n glyfar

### Cyflog

### Telerau secondiadau

### Ar fenthyg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

## Croeso

Diolch am eich diddordeb mewn gweithio i dîm Llywodraeth Cymru. Ein nod yw helpu'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru i greu Cymru decach, fwy cyfartal, a gwyrddach.

Mae gwaith tîm wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein swyddi'n addas i bobl sy'n gallu datblygu cysylltiadau cydweithio â chymysgedd o bobl ar bob lefel.

Mae gan y Prif Weinidog fframwaith partneriaeth gymdeithasol: cydweithio â'n partneriaid i ddatrys problemau a chwilio am atebion i'r heriau sy'n ein hwynebu fel cenedl. Mae gan Lywodraeth Cymru hanes llwyddiannus o weithio mewn partneriaeth ag undebau llafur. Rydym yn cefnogi staff i ymuno ag undeb llafur cydnabyddedig fel dull pwysig o sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn y gweithle.

Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i bobl Cymru drwy'r Senedd. Ein nod yw bodloni safonau uchel o ran tryloywder a gweithredu'n agored, a dangos gonestrwydd, gwrthrychedd, uniondeb, a natur ddiduedd yn ein holl waith. Rydym am greu amgylchedd gwaith sy'n ysgogi a chefnogi ac sy'n amrywiol, heriol ac yn gallu addasu.

Rydym yn gweithio'n galed i greu amgylchedd cefnogol a chynhwysol i'r holl staff allu datblygu a chyflawni hyd orau eu gallu.

Datblygwyd y canllawiau ymgeisio hyn i'ch helpu chi i wneud cais am gyfle i weithio yn Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnwys cyngor ar:

- y broses asesu
- sut i brofi'ch sgiliau, eich profiad a'ch gallu yn erbyn y meini prawf a restrwyd yn yr hysbyseb swydd
- telerau penodiad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- canllaw cam wrth gam ar gyfer y ffurflen gais ar-lein

## Egwyddorion recriwtio'r Gwasanaeth Sifil

Rydym yn recriwtio ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored fel yr amlinellir yn **egwyddorion recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil**.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg

## Amrywiaeth a chydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae hyn yn seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a byddwn yn cadw at yr ymrwymiad hwn ym mhob cam o'r 4 broses recriwtio. Ein nod yw gwneud yr egwyddorion hyn yn rhan annatod o'n harferion gwaith bob dydd gyda'n holl gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid hefyd.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth yn Llywodraeth Cymru, dileu rhwystrau a chefnogi'n holl staff i gyflawni eu potensial. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb, waeth beth fo'u hoedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas gyfartal a phriodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac rydym yn eu rhestr o'r 100 cyflogwr uchaf gan ennill gwobr Aur yn 2023. Rydym yn sefydliad Hyderus o ran Anabledd (Arweinydd). Rydym wedi llofnodi Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr, Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned ac addewid Pledge to be Seen gan Changing Faces sy'n cefnogi pobl â gwahaniaeth gweladwy. Mae pum Rhwydwaith Staff sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd yn allweddol er

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac er mwyn rhoi cefnogaeth gan gymheiriaid, sef Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS); Materion y Meddwl; Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig (MESN); PRISM (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Drawsryweddol, Ryngryw +) a Menywod Ynghyd.

## Recriwtio dienw

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu proses recriwtio ddienw. Ni fydd y panel recriwtio yn gweld gwybodaeth bersonol fel enw a chyfeiriad ymgeisydd yn ystod y broses sifftio. Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i ddileu rhagfarn a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu mewn modd sy'n anablu pobl ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu ddarpar aelod o staff) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Mae Llywodraeth Cymru yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Rydym yn gwarantu cyf-weld unrhyw ymgeisydd sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, sy'n niwroamrywiol neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain os yw'n bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi basio'r profion ar-lein a darparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod, yn gyffredinol, yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu pobl anabl yn eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

swydd a’u gyrfa.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran 5 o'r broses recriwtio hon, neu drafod sut y byddem yn eich cefnogi pe baech yn llwyddiannus, e-bostiwch **desggymorthcydwasanaethau@llyw.cymru** cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

# Gweithle Gwych i Gyn-Aelodau’r Lluoedd Arfog

Rydym yn cynnig y cyfle i gyn-aelodau’r lluoedd arfog sy’n bodloni’r safon ofynnol ym mhob un o feini prawf hanfodol swydd i fynd yn uniongyrchol i gam nesaf y broses ddethol. Os ydych wedi cwblhau o leiaf flwyddyn yn Lluoedd Arfog Ei Fawrhydi (fel aelod parhaol neu aelod wrth gefn) ac yn y cyfnod pontio o’r Lluoedd Arfog, neu ddim yn aelod mwyach, gallwch wneud cais am swyddi yn y Gwasanaeth Sifil o dan y fenter **Gweithle Gwych i Gyn-aelodau’r Lluoedd Arfog**.

# Cynllun Cyfweliad Adleoli

Gall cyflogwyr y Gwasanaeth Sifil gynnig cyfweliad i nifer teg a chymesur o weision sifil y mae eu swydd mewn perygl o gael ei dileu ac sy’n bodloni gofynion sylfaenol swydd.

Er enghraifft, efallai y bydd eich swydd mewn perygl os yw eich maes gwaith wedi dechrau cynllun diswyddo gwirfoddol neu orfodol yr ydych yn gymwys ar ei gyfer, neu os ydych yn ymwybodol bod eich cyflogwr wedi dechrau ymgynghori ar sut i leihau nifer y staff yn eich tîm neu’ch maes gwaith.

I gael eich ystyried am gyfweliad, rhaid ichi fod:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- â rheswm da dros gredu bod eich swydd yn debygol o gael ei dileu yn y dyfodol agos
- wedi dangos yn y camau ymgeisio a phrofi eich bod yn bodloni meini prawf sylfaenol y swydd a nodir ym manyleb y person
- yn gwneud cais am swydd ar yr un radd â'ch swydd bresennol, neu ar radd is

Bydd y ffurflen gais yn gofyn a ydych am wneud cais o dan y Cynllun Cyfweliad Adleoli, neu bydd canllawiau wedi'u nodi yn yr hysbyseb swydd.

Yn y cyfweliad, cewch gyfle i ddangos eich galluoedd a chewch eich marcio ar sail teilyngdod yn unig.

# Y Gymraeg

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn ein bywydau a'n gweithleoedd bob dydd. Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae mesurau ar waith i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r Prif Weinidog wedi nodi ei weledigaeth ar gyfer dyfodol yr iaith yn ein strategaeth **Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr**. Gweledigaeth y Llywodraeth hon yw gweld nifer y bobl sy'n gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae hefyd am ddyblu canran y bobl sy'n defnyddio'r iaith bob dydd.

Fel sefydliad, mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg, er enghraifft darparu gohebiaeth a chylchlythyrau dwyieithog ac ateb y ffôn yn ddwyieithog. Nodir y manylion yn **Safonau'r Gymraeg**. Mae'r safonau hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau mewnol ar gael yn Gymraeg i gyflogeion, megis:

- mewnrwyd ddwyieithog
- dogfennau Adnoddau Dynol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- offer TG i'n helpu i weithio'n ddwyieithog

Rydym am gefnogi ein cyflogeion i wella eu sgiliau iaith ar bob lefel. Mae gennym lawer o gyfleoedd i'n staff ddechrau dysgu neu loywi’r sgiliau sydd ganddynt eisoes. Mae ein strategaeth ar gyfer gweithio’n ddwyieithog, **Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd**, yn nodi ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050. Ein nod cychwynnol yw dod yn sefydliad sy’n dangos esiampl o ran ein defnydd o'r iaith dros y pum mlynedd nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru felly'n cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynyddu ei gweithlu dwyieithog. Mae croeso ichi wneud cais am unrhyw swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd ceisiadau a wneir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a wneir yn Saesneg. Gallwch hefyd ofyn am gyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg a delio â ni drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y broses recriwtio.

# Sut i wneud cais

## Cynllunio’ch cais

Cyn gwneud cais, dylech ddarllen yr hysbyseb swydd yn ofalus a sicrhau’ch hun eich bod yn gallu darparu tystiolaeth ddigonol o’r meini prawf a restrir. Mae'n werth nodi na fydd y rhai yr ystyrir nad ydynt yn gallu darparu tystiolaeth ddigonol yn eu cais o’r meini prawf a restrir yn yr hysbyseb swydd, yn mynd ymlaen i unrhyw gamau dilynol. Dim ond ymgeiswyr yr ystyrir eu bod wedi darparu tystiolaeth ddigonol o bob maen prawf sy'n cael ei brofi (sef, at ddibenion y Cynllun Cyfweld Hyderus o ran Anabledd, y meini prawf sylfaenol ar gyfer y radd) gaiff symud ymlaen y tu hwnt i'r cam cyntaf cychwynnol.

Dylech gynllunio sut y byddwch yn mynd ati i gwblhau’ch cais, gan ystyried dyddiad cau’r swydd. Mae’r dyddiad hwn yn ddyddiad penodedig na ellir ei newid (ac eithrio pan fo addasiad rhesymol yn briodol ac wedi’i gytuno ymlaen

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

llaw).

## Sut i wneud cais

I ymgeisio, bydd angen ichi gofrestru i greu cyfrif ar system ar-lein Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Argymhellir eich bod yn dewis cyfeiriad e-bost sy’n cael ei ddefnyddio gennych chi yn unig ac un y gallwch gael ato bob amser, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu â chi ynglŷn â’r broses ddethol.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu drafod sut y byddem yn eich cefnogi pe baech yn llwyddiannus, e-bostiwch **desggymorthcydwasanaethau@llyw.cymru** cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon a’ch gofynion.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer y rhan fwyaf o hysbysebion, ond yn achos rhai rolau lle mae’r Gymraeg yn hanfodol, dim ond ceisiadau Cymraeg y byddwn yn eu derbyn. Gofalwch eich bod wedi deall yr hyn sy’n ofynnol gennych o’r hysbyseb. Pan fo ceisiadau yn y naill iaith neu’r llall yn dderbyniol, byddant yn cael eu trin yr un fath. I weld fersiwn Saesneg o swydd, dewiswch Newid Iaith. Os hoffech wneud cais yn Saesneg, dewiswch Apply. Sylwch, unwaith y byddwch wedi dechrau gwneud cais yn Gymraeg, na allwch newid i gais Saesneg ar gyfer y swydd honno, wrth ddefnyddio’r un cyfrif defnyddiwr. Os byddwch yn cael unrhyw drafferth, neu os oes gennych gwestiynau am y broses, cysylltwch â **desggymorthcydwasanaethau@llyw.cymru**.

## Y broses asesu

Mae prosesau ymgeisio ac asesu Llywodraeth Cymru wedi’u seilio ar **Broffiliau**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Llwyddiant**, sy'n cael eu defnyddio ar draws y llywodraeth gyfan. Mae'r rhain yn defnyddio nifer o "elfennau" gwahanol (profiad, cryfderau, gallu, technegol ac ymddygiadau) i lywio ein dulliau dethol. Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn darllen yr wybodaeth hon cyn dechrau'ch cais.

Fel arfer, bydd o leiaf ddau gam; cam ymgeisio cychwynnol i ddechrau ac yna cyfweliad neu broses asesu. Fodd bynnag, gallai fod sawl cam gwahanol i'r broses asesu, yn dibynnu ar y gofynion. Darllenwch yr hysbyseb i weld manylion penodol y camau a'r hyn sy'n ofynnol.

Mae'r canlynol yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am rywfaint o'r wybodaeth y mae'n bosibl y bydd gofyn ichi ei darparu.

# Ffurflen gais

Wrth lenwi ffurflen gais bydd gofyn ichi ddarparu gwybodaeth am eich cymhwystra, eich addysg, a'ch hanes cyflogaeth. Mae canllawiau cam wrth gam ar gyfer pob adran o'r ffurflen gais ar gael yn Atodiad A.

Efallai y bydd gofyn ichi ddarparu tystiolaeth hefyd, ar ffurf enghreifftiau go iawn o'ch sgiliau, eich profiad a'ch gallu yn unol â'r hyn a restrir yn yr hysbyseb swydd. Gall y rhain berthyn i unrhyw nifer o elfennau'r **Proffiliau Llwyddiant**. Dyma'r rhan bwysicaf o'ch ffurflen gais gan y bydd yn cael ei hasesu gan banel recriwtio.

Wrth ddewis pa enghreifftiau fydd yn dangos y meini prawf gofynnol orau, ystyriwch y cyngor canlynol:

- Seiliwch eich enghreifftiau ar brofiad blaenorol. Dylech feddwl am yr hyn rydych wedi'i gyflawni yn ddiweddar, o fewn y blynyddoedd diwethaf.
- Gallwch ddefnyddio enghreifftiau o ystod eang o brofiadau fel y bo angen. Y tu allan i'r gwaith, gall hyn fod yn brofiad o leoliadau addysg neu wirfoddoli.
- Pan fyddwch wedi dewis eich enghreifftiau cryfaf, dylech sicrhau eu bod yn bodloni gofynion llawn y meini prawf rydych yn rhoi tystiolaeth ohonynt. Wrth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

lunio'ch enghreifftiau, gadewch ddigon o amser i sicrhau bod eich enghraifft/ enghreifftiau'n cyd-fynd â'r meini prawf rydych yn darparu tystiolaeth ohonynt.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno tystiolaeth mor gryno â phosibl ac nad yw'n fwy na'r cyfyngiad geiriau. • Cofiwch, ni all panel recriwtio ragdybio rhywbeth sydd heb ei gynnwys yn yr enghraifft. Dim ond yr hyn rydych chi wedi'i ysgrifennu y byddant yn gallu ei asesu.
- Defnyddiwch 'fi/rwyf' nid 'ni/rydym'. Rhowch dystiolaeth o'ch rôl chi a sut y gwnaethoch chi effeithio ar y canlyniad.
- Peidiwch ag adrodd stori neu gyflwyno golygfa yn eich enghraifft. Dylai'ch enghraifft gynnwys datganiad byr ynglŷn â sefyllfa neu gyd-destun eich enghraifft, yna canolbwyntio ar sut y gwnaethoch chi'r dasg, a pha gamau y gwnaethoch chi eu cychwyn, eu cymryd neu eu harwain. Esboniwch pam y gwnaethoch gymryd y camau hyn, ac unrhyw rwystrau a gawsoch. Yn olaf, dylech gynnwys canlyniadau, gan ddefnyddio datganiadau byr i ddangos pam roedd eich camau'n effeithiol neu pam roeddent yn ychwanegu gwerth. Os nad oedd y canlyniad yn gwbl lwyddiannus disgrifiwch beth y gwnaethoch ei ddysgu o hyn.
- Mae rhai ymgeiswyr yn teimlo bod defnyddio'r dull STAR yn ddefnyddiol wrth gyflwyno tystiolaeth gan ei fod yn darparu strwythur a ffocws i enghreifftiau ar y ffurflen gais ac yn y cyfweliad.

Situation (Sefyllfa): disgrifiad byr o'r cyd-destun a'ch rôl chi
Task (Tasg): yr her, y dasg neu'r gwaith penodol a oedd o'ch blaen
Action (Camau gweithredu): yr hyn a wnaethoch chi, a sut a pham y gwnaethoch hynny
Result (Canlyniad): y canlyniadau a beth wnaethoch chi ei gyflawni drwy'ch camau.

Cadwch y rhannau am y sefyllfa a'r dasg yn fyr. Canolbwyntiwch ar y camau gweithredu a'r canlyniad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Sifftio

Bydd y dystiolaeth rydych yn ei darparu yn cael ei hasesu gan banel recriwtio. Os yw'r panel yn cytuno eich bod wedi darparu tystiolaeth ddigonol yn erbyn y meini prawf, bydd eich cais yn mynd ymlaen i'r cam nesaf.

Byddwch yn cael o leiaf bum niwrnod gwaith o rybudd am unrhyw gamau dilynol (gellir estyn hyn os ydych yn anabl ac angen amserlen hirach fel addasiad rhesymol).

Os byddwch yn aflwyddiannus mewn unrhyw gam, ni fydd eich cais yn symud ymlaen i unrhyw gamau dilynol. Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod canlyniad pob cam mewn e-bost i'w gyfeiriad e-bost cofrestredig.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael adborth ysgrifenedig byr ar eu cais.

## Profion neu ymarferion technegol

Ar gyfer rhai ceisiadau, efallai y cewch eich gwahodd i wneud rhyw fath o brawf neu ymarfer. Gall y rhain fod yn gam unigol yn y broses neu gallant fod yn rhan o gam y cyfweliad.

Ar gyfer rhai ceisiadau, dim ond y rhai sy'n llwyddo i basio'r profion fydd yn symud ymlaen i unrhyw gam dilynol. Bydd methu â chwblhau unrhyw brawf erbyn unrhyw ddyddiad cau a nodir, yn golygu na fydd eich cais yn symud ymlaen i'r cam nesaf.

Efallai y bydd yr hysbyseb yn dweud bod angen ichi wneud profion neu ymarfer. Os felly, bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu pan gewch eich gwahodd i wneud y profion. Os oes angen addasiad rhesymol arnoch (er enghraifft, os nad yw'ch technoleg gynorthwyol yn gydnaws â'r prawf) e-bostiwch **DesgGymorthCydwasanaethau@llyw.cymru** cyn gynted â phosibl. Bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sydd gennych.

## Cyfweliad

Mae ein cyfweliadau fel arfer yn cael eu cynnal ar-lein, gan ddefnyddio Microsoft Teams, ond weithiau mae’n bosibl y byddant yn cael eu cynnal yn un o'n swyddfeydd. Mae cyfweliadau yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau yn seiliedig ar wahanol elfennau o’r **Proffiliau Llwyddiant**. Byddwch yn cael gwybodaeth, ymlaen llaw, am yr hyn y bydd y cyfweliad yn ei gynnwys, naill ai yn yr hysbyseb neu drwy ohebiaeth bellach ym mhob cam. Gallai hyn gynnwys rhai o'r mathau canlynol o gwestiynau:

### Ymddygiadau

Bydd y cwestiynau ymddygiad yn archwilio’ch galluoedd yn fanwl a byddant yn cyd-fynd â’r rhai a restrwyd yn yr hysbyseb swydd.

Y nod yw gweld sut rydych wedi ymddwyn a defnyddio’ch sgiliau yn y gorffennol i ymdrin â heriau a phroblemau, ar y sail bod hyn yn debygol o fod yn arwydd o sut y byddwch yn ymddwyn yn y dyfodol.

Diben y cwestiynau yn y cyfweliad yw’ch galluogi i ddarparu tystiolaeth o’r ymddygiadau gofynnol, drwy ddefnyddio enghreifftiau perthnasol o’ch profiad.

Er y bydd y panel yn chwilio am dystiolaeth o ymddygiad penodol, cofiwch fod angen ichi sicrhau’ch bod yn ateb y cwestiwn penodol y byddant yn ei ofyn yn y cyfweliad. Mae’n bwysig cofio gwrando’n ofalus ar y cwestiwn, yna defnyddio’r enghraifft fwyaf priodol fel tystiolaeth yn y cwestiwn hwnnw.

### Hyderus o ran Anabledd

Byddwn yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- a nododd ar eu ffurflen gais eu bod am gael cyfweliad wedi’i warantu o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, ac
- sy’n bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y radd yn y camau sifftio

## Cryfderau

Bydd cwestiynau cryfderau yn archwilio beth rydych chi’n ei fwynhau a beth sy’n eich cymell chi, a hynny mewn ffordd berthnasol i ofynion y radd. Byddant hefyd yn cydfynd â’r cryfderau a restrwyd yn yr hysbyseb swydd. Nid oes disgwyl na gofyn ichi baratoi ar gyfer cwestiynau cryfderau cyn y cyfweliad, er y byddai efallai’n fuddiol treulio rhywfaint o amser yn meddwl am beth rydych yn mwynhau ei wneud a beth rydych yn ei wneud yn dda.

## Cwestiynau technegol neu gwestiynau seiliedig ar brofiad

Nod y rhain yw archwilio'ch sgiliau proffesiynol, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth dechnegol, a'ch profiad mewn cyd-destun penodol. Gallant gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â fframweithiau cymwyseddau proffesiynol penodol neu archwilio'ch cymwysterau neu’ch gwybodaeth broffesiynol.

## Panel cyf-weld

Yn y cyfweliad, bydd dau neu dri o bobl ar y panel recriwtio. Byddant yn gobeithio’ch gweld chi ar eich gorau yn y cyfweliad ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i roi’r cyfle ichi ddangos eich bod yn gallu bodloni’r meini prawf sy’n ofynnol ar gyfer y swydd a’r radd.

Bydd cyfweliadau’n dilyn y strwythur isod:

- bydd y Cadeirydd yn cyflwyno’r panel ac yn esbonio fformat ac amseriad y cyfweliad. Byddwch yn cael cyfle i ofyn cwestiynau am y fformat a byddant yn gofyn ichi a oes yna unrhyw beth a allai effeithio ar eich perfformiad yn y cyfweliad, megis profedigaeth ddiweddar neu ddamwain car. Diben hyn yw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sicrhau nad oes unrhyw beth a allai amharu ar eich perfformiad. Os oes rhywbeth wedi digwydd, byddwch yn cael cyfle i aildrefnu'r cyfweliad. Fodd bynnag, os byddwch yn dewis parhau â'r cyfweliad, ni fyddwch yn gallu aildrefnu ar gyfer amser arall os byddwch yn teimlo wedyn na wnaethoch chi eich gorau.
- bydd pob aelod o'r panel yn gofyn cwestiynau yn eu tro.
- ar ddiwedd y cyfweliad, bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfle ichi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych

## Hyd y cyfweliad

Fel arfer, bydd y cyfweliad yn para rhwng 45 i 70 munud yn dibynnu ar radd y swydd rydych chi'n gwneud cais amdani a'r math o asesiad sy'n ofynnol.

## Iaith y cyfweliad

Byddwn yn ceisio sicrhau bod eich cyfweliad yn cael ei gynnal yn eich dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg (yn seiliedig ar yr hyn a nodwyd gennych ar y ffurflen gais). Os na allwn gynnig panel llawn o siaradwyr Cymraeg, efallai y bydd angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mewn achosion o'r fath, byddwch yn cael gwybod am y trefniadau cyn y cyfweliad.

## Diben y cyfweliad

Diben cyfweliad yw:

- profi a yw ymgeisydd yn addas i ofynion y swydd a'r radd
- rhoi cyfle i bob ymgeisydd gyflwyno ei dystiolaeth
- argymell pa ymgeiswyr ddylai gael cynnig swydd a llunio trefn teilyngdod ar sail y sgoriau a gafwyd

Mewn cyfweliad, bydd y panel yn ceisio gweld sut rydych yn bodloni'r meini

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

prawf a restrwyd yn yr hysbyseb swydd. Mae angen ichi fod yn barod i roi atebion sy'n dangos sut rydych yn gwneud hynny.

Cyngor defnyddiol wrth baratoi am gyfweliad:

- ceisiwch drefnu ffug gyfweliad gyda ffrind, aelod o'r teulu neu gydweithiwr
- paratowch fwy o enghreifftiau nag y gwnaethoch eu darparu yn eich cais. Efallai y bydd y panel yn gofyn ichi am ragor o fanylion a/neu enghreifftiau eraill os yw'n eich helpu i ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i fodloni'r ymddygiadau.
- ystyriwch ddefnyddio'r model "STAR" i strwythuro'ch atebion.

## Ar ôl y cyfweliad

Ar ôl y cyfweliad, bydd canlyniadau'n cael eu rhoi cyn gynted â phosibl drwy'ch cyfeiriad e-bost cofrestredig. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael adborth ysgrifenedig byr ar eu cyfweliad.

## Cwynion

Dylai unrhyw un sy'n credu ei fod wedi'i drin yn annheg, neu sydd â chwyn, gysylltu â ni drwy'r **Uned Gŵynion**.

Os ydych yn anhapus â chanlyniad y gŵyn ac yn teimlo nad yw egwyddorion penodi ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored wedi'u bodloni, mae gennych yr hawl i anfon eich cwyn ymlaen i Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn 3rd Floor, 35 Great Smith Street, London SW1P 3BQ.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Telerau penodiad

## Oriau gwaith

Mae swyddi ar gael yn rhan-amser, fel rhan o drefniant rhannu swydd neu'n llawn amser. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan-amser.

## Absenoldeb

Bydd gennych hawl i wyliau blynyddol ac amser i ffwrdd yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer absenoldeb blynyddol, gwyliau cyhoeddus a braint ac absenoldeb am resymau teuluol. Mae gan gyflogeion llawn amser hawl i 31 diwrnod o absenoldeb blynyddol, a 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint. Bydd trefniadau pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser.

Byddwch yn gymwys am dâl salwch, tâl gwyliau ac unrhyw hawliau absenoldeb yn unol ag amodau a thelerau Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig ystod o drefniadau gweithio ystyriol o deuluoedd a threfniadau gweithio hyblyg, sy'n cefnogi teuluoedd gweithio modern. Nod ein polisïau yw galluogi cyflogeion i gyfuno gwaith a bywyd teuluol fel y gallwn gadw eu sgiliau gwerthfawr yn y gweithle ac fel y gallan nhw gyflawni eu potensial.

## Perfformiad a hyfforddiant

Byddwch chi a'ch rheolwr llinell y cytuno ar amcanion ar ddechrau'r penodiad cyfnod penodol. Bydd adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar adegau y cytunwyd arnynt. Bydd y rheolwr llinell yn trefnu rhaglen neu hyfforddiant sefydlu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

fel y bo'n briodol.

Mae pawb yn Llywodraeth Cymru yn cael cymorth i ddatblygu ei sgiliau a'i alluoedd, gan gynnwys cyfleoedd dysgu a datblygu. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu a datblygu a sicrhau bod ein staff yn cael o leiaf 5 diwrnod o ddysgu bob blwyddyn.

## Lleoliad

Mae'r mwyafrif o swyddi yn cael eu dynodi'n rhai Cymru gyfan, oni bai y nodir yn wahanol yn yr hysbyseb. Mae 'Cymru gyfan' yn golygu bod lleoliad y swydd yn hyblyg, gan ddibynnu ar anghenion y busnes. **Mae rhestr o swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gael yn LLYW.CYMRU**.

Sylwch na fydd hi efallai yn bosibl bodloni dewis rhywun o leoliad swyddfa penodol. Rydym yn cefnogi gweithio gartref a theilwra patrymau i amgylchiadau'r unigolyn. Yn y tymor byr, bydd y mwyafrif o ddeiliaid swyddi yn gweithio gartref neu o bell.

## Gweithio'n glyfar

Mae Llywodraeth Cymru yn annog arferion gweithio'n glyfar. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar sut rydych chi'n defnyddio eich amser, a ble a sut rydych chi'n gweithio er mwyn bodloni'r anghenion busnes yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i staff o ran lleoliad ac oriau gwaith. Mae gweithio'n glyfar a hyblyg yn dod yn nodwedd barhaol o'n bywyd gweithio yng Nghymru a bydd Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd yn hyn o beth. (Yn y tymor byr, bydd y mwyafrif o ddeiliaid swyddi yn gweithio gartref.)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyflog

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu penodi yn unol â'r swm a nodir o dan "Cyflog Cychwynnol Gwirioneddol". Mae hyn yn berthnasol i bob ymgeisydd allanol, ni waeth a yw eisoes yn gweithio i Lywodraeth Cymru, yn Was Sifil presennol neu erioed wedi gweithio i'r Gwasanaeth Sifil. Ni fydd pwyntiau cyflog presennol ar gyfer Gweision Sifil presennol yn cael eu trosglwyddo.

## Telerau secondiadau

Weithiau caiff swyddi eu hysbysebu fel cyfle am secondiad. Os felly, bydd hyn yn cael ei nodi yn yr hysbyseb. Mae secondiadau ar gael i bobl nad ydynt eisoes yn weision sifil. Bydd secondai yn parhau i gael ei gyflogi gan ei gyflogwr presennol am gyfnod cyfan y secondiad ac yn unol â'i delerau ac amodau a'i gyflogres bresennol. Nid yw secondai yn gymwys ar gyfer telerau, amodau na buddion Llywodraeth Cymru.

Gan fod secondai yn parhau o dan ei amodau a thelerau ei hun, bydd yn trosglwyddo atom ar ei gyflog presennol. Yn eithriadol, gallai Llywodraeth Cymru fod yn fodlon i'r secondai gael ei dalu ar waelod band cyflog (ar y pwynt mynediad yn unig) y radd y mae'n cael ei benodi iddi, ond byddai'n rhaid i gyflogwr y secondai gytuno â thelerau'r penodiad a'r cynnydd dros dro i gyflog ei gyflogai am gyfnod y secondiad. Pan fydd unigolyn yn cael ei ystyried yn radd is yn ei sefydliad cartref, ond ei fod ar hyn o bryd yn ennill cyflog o fewn ein hystod gyflog, bydd yn aros ar ei gyflog presennol. Ni fydd secondai'n cael unrhyw ddyfarniadau cyflog, cynyddran na newidiadau cyflog sy'n cael eu cynnig i gyflogeion Llywodraeth Cymru.

Gellir rhannu ein polisi a'n cytundeb secondai ag ymgeiswyr sy'n ymgeisio am secondiad pan ofynnir amdanynt.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ar fenthyg

Dim ond i Weision Sifil presennol y mae'r broses fenthyciadau ar agor, a rhaid iddynt fod wedi'u recriwtio i'r Gwasanaeth Sifil drwy gystadleuaeth deg ac agored ac ar sail teilyngdod. Bydd unigolion sy'n symud ar fenthyg yn gwneud hynny yn unol ag Egwyddorion Trosglwyddo'r Gwasanaeth Sifil (**Sut i newid swydd rhwng adrannau ac asiantaethau**). Oni bai bod y cytundeb am lai na 6 mis, bydd unigolion llwyddiannus yn symud i amodau a thelerau Llywodraeth Cymru.

Oni nodir yn wahanol yn yr Hysbyseb Swydd, ni ddisgwylir i'r rhai sydd ar fenthyg gael trosglwyddiad parhaol na dyrchafiad parhaol i Lywodraeth Cymru (mae hyn yn amodol ar yr angen parhaus am y rôl a chadarnhad o gyllid ar ddiwedd y cyfnod benthyg) ac oni nodir yn wahanol yn yr hysbyseb, dim ond y rhai sy'n gwneud cais i symud ar draws sy'n gymwys i wneud cais. Disgwylir i unigolion sydd ar fenthyg ddychwelyd i'w hadran gartref ar ddiwedd y cytundeb ac i'w gradd swydd barhaol.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/swyddi-llywodraeth-cymru-canllawiau-recriwtio-ymgeiswyr-allanol-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.